

Eluned Morgan AS

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

28 Gorffennaf 2020

Annwyl Eluned,

Trefniadau gwahanu rhwng y DU, a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y trefniadau gwahanu rhwng y DU, a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.


Mae Llywodraeth y DU, yn y Memorandwm Esboniadol ar y Cytundeb Gwahanu, yn cydnabod bod y Cytundeb Gwahanu yn cynnwys cymysgedd o feysydd polisi datganoledig a meysydd polisi a gadwyd yn ôl. Daeth ein hasesiad ni i'r casgliad y bydd y Cytundeb Gwahanu yn effeithio ar Gymru yn y meysydd a ganlyn:

- hawliau dinasyddion;
- nwyddau a roddir ar y farchnad (gan gynnwys effaith bosibl ar y sector amaethyddiaeth); a
- caffael cyhoeddus.

Nododd y Memorandwm Esboniadol fod Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig ar y cytundeb hwn ac wedi dangos y testun drafft iddynt cyn iddo gael ei gytuno. A allwch gadarnhau bod hyn yn wir, ac amlinellu ffurf eich ymgysylltiad â Llywodraeth y DU, yn enwedig mewn perthynas â'r meysydd a amlinellir uchod?

Yn ychwanegol at y trefniadau a nodir yn y Cytundeb Gwahanu, bydd angen i'r DU drafod a dod i gytundebau ychwanegol ar drefniadau EFTA y DU-AEE yn y dyfodol cyn diwedd y cyfnod pontio. A allwch amlinellu unrhyw ran rydych chi wedi'i chael neu yn disgwyl ei chael yn y trafodaethau hyn?

Yn gywir



David Rees AS

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

✉ SeneddMADY@senedd.cymru

☎ 0300 200 6565

Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

✉ SeneddEAAL@senedd.wales

☎ 0300 200 6565